Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rywiol
RHWYDWAITH YMCHWIL CYMRU
Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence
RESEARCH NETWORK WALES

# RHWYDWAITH YMCHWIL VAWDASV

**Cylchlythyr**

## Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y RHWYDWAITH

Croeso i rifyn mis Medi 2023 o Gylchlythyr Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru.

Mae wedi bod yn gyfnod prysur i'r rhwydwaith ymchwil dros y misoedd diwethaf ers ein cylchlythyr diwethaf ym mis Ebrill. Rydym wedi cynnal tri digwyddiad wyneb yn wyneb, gan ddod â mwy na 100 o bobl ynghyd i weithio tuag at gyrraedd ein nod o lunio ymchwil sy'n helpu i roi diwedd ar VAWDASV:
-Mynd i'r afael ag achosion o gam-drin domestig yn yr heddlu – archwilio ymateb heddluoedd yng Nghymru i ddioddefwyr a throseddwyr fel cyflogeion. Partneriaeth rhwng y Brifysgol Agored a Phrifysgol De Cymru, a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru.

-Roedd Trais Rhywiol yn ymwneud â Gwrthdaro a'r Celfyddydau yn archwilio rôl y celfyddydau wrth weithio tuag at roi diwedd ar bob math o VAWDASV, ac roedd yn cynnwys perfformiad o'r ddrama No Name gan GJ Kalic, a thrafodaeth gan banel proffesiynol. Ymhlith y panelwyr roedd Johanna Robinson (Llywodraeth Cymru), Nancy Lidubwi (Bawso), Mike Wilkinson (Llwybrau Newydd) a'r Athro Jelke Boesten (Coleg Brenhinol Llundain), a chafwyd cyflwyniad gan y Farwnes Arminka Helic.

-Daeth Blaenoriaethau ymchwil VAWDASV a rhwydweithio ag aelodau o'r rhwydwaith ymchwil ac unigolion nad ydynt yn aelodau ynghyd mewn gweithdy i ystyried y blaenoriaethau ymchwil i Ghymru a sut y gellid mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys archwilio meysydd â blaenoriaeth, yr arbenigedd gofynnol a ffynonellau cyllid posibl i fynd ar drywydd ceisiadau ymchwil pellach yn y dyfodol.

Mae gennym dros 120 o aelodau ar hyn o bryd sy'n cynrychioli dros 40 o sefydliadau ledled Cymru, gyda chynnydd yn nifer yr aelodau ledled y DU ac Iwerddon. Mae ein rhwydwaith cynhwysol wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymchwil VAWDASV, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i dyfu ein cymuned. Gallwch ymuno â'r rhwydwaith ymchwil yma: **http://eepurl.com/h34gnz**.

Os oes gennych unrhyw newyddion, adnoddau neu ddiweddariadau yr hoffech i ni eu hychwanegu at y wefan, rhowch wybod i ni! Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn. Os hoffech wybod mwy neu gynnwys eitem yn ein cylchlythyr chwarterol nesaf, cysylltwch â ni: **vawdasvwales@southwales.ac.uk**.

**Emily and Sarah**
Prof Emily Underwood-Lee and Dr Sarah Wallace,
Co-chairs of the VAWDASV Research Network Wales



# FFOCWS AR YR AELODAU

Mat Taylor yw Rheolwr Rhaglen Polisi Cyflawnwyr Llywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio gyda thîm VAWDASV a chydweithwyr ym mhob rhan o'r llywodraeth ganolog a Phlismona yng Nghymru. Mae gan Mat brofiad helaeth o weithio gyda throseddwyr a'r rhai sy'n niweidio, ar ôl treulio 11 mlynedd yn gweithio i'r Gwasanaeth Carchardai. Cyn iddo ymuno â Llywodraeth Cymru, gweithiodd fel Pennaeth y Tîm Gostwng Aildroseddu, Pennaeth y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr ac fel Arweinydd Strategaeth Ddigidol ar gyfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i greu dioddefwyr a chreu Cymru fwy diogel a gwella'r cyfleoedd i newid.

Ar hyn o bryd, mae Mat yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent i ddatblygu safle peilot ar gyfer y Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig (DAPO) newydd. Mae'n eistedd ar Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol i gynrychioli Cymru ac mae ganddo ddiddordeb penodol yn y system Monitro Electronig (EM) ac elfennau Gofyniad Cadarnhaol y Gorchymyn.
Mae Mat hefyd yn gweithio gyda Swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwent er mwyn datblygu ymateb i'r canllawiau ar y ‘rhybuddiad amodol’ dwy haen diwygiedig a mabwysiadu prosiect CARA fel ymateb i fynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol y rhai sy'n troseddu am y tro cyntaf lle y bo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o'i waith arall yn canolbwyntio ar wethgarwch sy'n gysylltiedig Glasbrint VAWDASV a chefnogi amcanion 3 a 4 Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2022-2026 Llywodraeth Cymru. Ymhlith y gweithgarwch presennol mae ymgyrch ‘Iawn’, deall ymddygiadau, comisiynu ar sail anghenion, rhaglenni cyflawnwyr ac ymgysylltu â dynion ifanc a bechgyn.

Mae Mat yn gydweithiwr brwd ac yn gwerthfawrogi dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rhannu arferion. Mae Mat yn un o Lysgenhadon y Rhuban Gwyn ac mae'n arwain gweithgarwch y Rhuban Gwyn ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae ganddo ddau blentyn arbennig, cymar gwych ac amyneddgar a chi blewog o'r enw Alfie. Mae Mat yn mwynhau anturiaethau yn yr awyr agored, beicio i lawr llethrau, chwaraeon dŵr, cerdded a gwersylla gwyllt.

# NEWYDDION -

## Calan - Ei Mawrhydi y Frenhines yn cwrdd â Chynrychiolwyr o Wasanaethau Trais Domestig Calan

Fel rhan o ymweliad diweddar â De Cymru, cyfarfu Ei Mawrhydi y Frenhines â chynrychiolwyr o Wasanaethau Trais Domestig Calan a preswylwyr y lloches a'u plant yn Aberhonddu. Yn ystod yr ymweliad, treuliodd Ei Mawrhydi y Frenhines amser yn siarad â staff y lloches a'r preswylwyr sydd wedi ceisio lle diogel yn y lloches.



Mae Gwasanaethau Trais Domestig Calan wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o ddarparu cymorth hanfodol a noddfa yn Ne, Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan drais domestig, gan gynnig lle diogel lle y gall goroeswyr ailadeiladu eu bywydau gydag urddas a grym. Amlygodd yr ymweliad y gwaith hanfodol a wneir gan y lloches a thynnu sylw at y broblem ehangach o drais a cham-drin domestig. Gwnaeth Ei Mawrhydi ganmol staff Calan am eu hymroddiad, eu hymdrechion diflino a'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud i greu amgylchedd meithringar i oroeswyr.

**Dywedodd Michelle Whelan, Prif Swyddog Gweithredol Gwasanaethau Trais Domestig Calan:** “Rydym yn hynod ddiolchgar am ymweliad Ei Mawrhydi. Mae ein goroeswyr, ein staff a'n hymddiriedolwyr yn gwerthfawrogi ei phresenoldeb a'i chefnogaeth yn fawr. Mae'n anrhydedd ei bod yn cefnogi ein cenhadaeth i roi diwedd ar drais a cham-drin domestig ac i greu cymuned lle mae pawb yn cael eu parchu ac yn teimlo'n ddiogel.”

*Yn y llun gydag Ei Mawrhydi y Frenhines mae cynrychiolwyr o Wasanaethau Trais Domestig Calan, gan gynnwys (o'r chwith i'r dde) Jessica Greene (Gweithiwr Cymorth Cam-drin Domestig), Katie Samuel (Rheolwr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc), Moyra Parfitt (Pennaeth Gweithrediadau), Sue Gardiner (Uwch-weithiwr Cymorth Arbenigol Cam-drin Domestig/Hyfforddwr), Brid Kilmartin (Arweinydd Tîm), Shakira Joyner (Cadeirydd), Jen Lawton (Ymddiriedolwr), Kathy Irwin (Rheolwr*

**Cymorth i Ferched Cymru: Newid sy'n Para, Plant a Phobl Ifanc**




Gyda chymorth gan blant a phobl ifanc ledled Cymru, mae Cymorth i Ferched Cymru, ar y cyd â Hyb ACE Cymru, wedi datblygu rhai adnoddau i ategu ei ddull Newid sy'n Para. Cafodd yr adnoddau eu datblygu er mwyn helpu plant a phobl ifanc i wella eu dealltwriaeth o waith Cymorth i Ferched Cymru ac i ddangos ble i fynd i gael cymorth.

**Cliciwch yma i weld yr adnoddau.**




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

# YMCHWIL

**Cymru Heb Drais: Safbwyntiau Plant a Phobl Ifanc**

Mae adroddiad *Cymru Heb Drais: Safbwyntiau Plant a Phobl Ifanc* yn dwyn ynghyd y cyfraniadau a wnaed gan blant a phobl ifanc yn ystod ymgynghoriad Cymru Heb Drais, gan roi cipolwg heb ei debyg ar y materion sy'n cael yr effaith fwyaf ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal â'u blaenoriaethau ar gyfer atal trais.




Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ddemograffaidd, yn ogystal ag ymatebion y plant a'r bobl ifanc i gwestiynau am effeithiau hunaniaeth unigolyn ar drais, sut i ddatrys trais a pha mor dda y mae gweithwyr proffesiynol yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ynghylch dulliau atal trais.

Mae'r adroddiad wedi'i anelu at bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â **Fframwaith Cymru Heb Drais** wrth gynllunio gweithgarwch atal trais.

**Cliciwch yma i lawrlwytho'r adroddiad.**

---

**Beth sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)**

Mae'r adolygiad hwn yn nodi arferion effeithiol ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae'r adolygiad yn seiliedig ar egwyddorion iechyd cyhoeddus sy'n darparu fframwaith defnyddiol i ddeall achosion a goblygiadau trais, yn ogystal ag atal trais.

Am ragor o wybodaeth, **cliciwch yma**.


**Trawma, Trais a Cham-drin – Trais Domestig yn ystod Pandemig COVID-19: Adolygiad Systematig**

Gwnaeth pandemig parhaus COVID-19 orfodi sawl gwlad i roi cyfyngiadau symud cenedlaethol ar waith fel dull o amddiffyn rhag lledaeniad y feirws. Er bod aros gartref yn ddull priodol i atal y feirws rhag lledaenu, arweiniodd hyn at ganlyniadau cymdeithasol, seicolegol, ac economaidd. Mae'r adolygiad systematig yn ystyried y cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig sy'n cynnwys amrywiaeth o weithredoedd treisgar— corfforol, rhywiol, ac emosiynol.

**Cliciwch yma i lawrlwytho'r adroddiad.**

---

**Gwella Cymorth a Gwasanaethau i Ddynion Hŷn sy'n Dioddef Cam-drin Domestig**




Mae rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Yn 2020, sefydlodd y Comisiynydd grwpiau 'Gweithredu' a 'Llywio' ar Atal Cam-drin mewn ymateb i bryderon bod nifer yr achosion o gam-drin pobl hŷn yn debygol o gynyddu yn ystod pandemig COVID-19. Nododd rhai aelodau o'r grwpiau hyn eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y dynion hŷn sy'n chwilio am gymorth oherwydd cam-drin domestig. Datblygodd y Comisiynydd gyfres o argymhellion allweddol mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd a, lle y bo'n briodol, sefydliadau eraill mewn ymateb i argymhellion yr ymchwil. Caiff y camau gweithredu penodol hyn, sydd wedi'u mapio yn erbyn yr argymhellion, eu nodi yn yr adroddiad.

**Cliciwch yma i lawrlwytho'r adroddiad.**

# CYFLEOEDD YMCHWIL A CHYLLIDO -

**Cyfres o alwadau sydd ar agor/y disgwylir iddynt agor drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:**

Dyfarniad Cymrodoriaeth Ddoethur - er mwyn i ymchwilwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ymgymryd â PhD llawn amser â chyflog llawn.

Cynllun Ymchwilwyr Newydd sy'n Dod i'r Amlwg - wedi'i ddylunio i gefnogi unigolion sydd am gymryd eu camau cyntaf ym maes ymchwil ac i hwyluso cyfleoedd pellach i ddatblygu gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynllun Ymchwilydd sy'n Datblygu - ar gyfer ymchwilwyr sydd yng nghanol eu gyrfa wrth iddynt bontio i gam nesaf eu gyrfa ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

# EVENTS

**Mae Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru (GYRC) Gweithdai Sydd ar Ddod**

Nodi ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru: Cefnogi plant a theuluoedd â hyder.
31 Hydref 2023
13:00 - 14:00

**Cliciwch ar y ddolen isod i drefnu eich lle.**

**Gwobrau Cyntaf Cymunedau Mwy Diogel 2023**

Cynhelir y Gwobrau ddydd Iau 30 Tachwedd 2023, 14:00-17:00, yn y Village Hotel Abertawe, SA1 8QY.

**Cofrestrwch yma i fynychu.**

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Gwobrau, gan gynnwys yr enwebiadau Gwobrau sydd ar agor nawr i'w cyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg erbyn 18 Hydref 2023, **yma.**

---

**Cynhadledd: Theori Meddwl, Ymchwil, ac Ymarfer:Gwleidyddiaeth Ffeministaidd Cyfiawnder Cymdeithasol**

Cynhadledd deuddydd o hyd yw Theori Meddwl, Ymchwil ac Ymarfer: Gwleidyddiaeth Ffeministaidd Cyfiawnder Cymdeithasol, a gynhelir gan: Rhwydwaith LEX, Rhwydwaith Ymchwil Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWGRN), y Rhwydwaith Ymchwil a Gweithredu Cyfreithiol Ffeministaidd (FRAN), a'r Ganolfan ar gyfer Astudio Emosiwn a'r Gyfraith (CSEL).

Dyddiad: 9 - 10 Tachwedd 2023
Lleoliad: Adeilad Ysgol y Gyfraith a Chyfiawnder Cymdeithasol, Prifysgol Lerpwl

**Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys agenda, cliciwch yma.**

---

**16 Diwrnod o Weithredu: Digwyddiad Prifysgol Caerdydd a Soroptimyddion Rhyngwladol Morgannwg – Cadwch y dyddiad!**

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydweithio â Soroptimyddion Rhyngwladol Morgannwg i nodi'r 16 Diwrnod o Weithredu i roi diwedd ar Drais ar Sail Rhywedd.

Pryd: Dydd Iau 30 Tachwedd, 2023
11am – 3pm

Ble: Canolfan Bywyd y Myfyrwyr Parc y Plas, Caerdydd, CF10 3BB

***cont.***

Mae Soroptimyddion Rhyngwladol Morgannwg yn glwb sy'n gweithio'n lleol i wella bywydau menywod a merched. Y llynedd, er mwyn anrhydeddu #YBydOren, gwnaethant greu rhaeadrau o duswau blodau a wnaed â llaw a'u harddangos yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, yn ystod yr ymgyrch ryngwladol 16 diwrnod o weithredu yn erbyn Trais ar Sail Rhywedd.

Eleni, mae Soroptimyddion Rhyngwladol Morgannwg yn trawsnewid y rhaeadrau o flodau i greu 52 o dorchau.Mae'n bleser gan Brifysgol Caerdydd gyhoeddi y bydd y torchau i'w gweld yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr, yn ystod yr ymgyrch #16Diwrnod o Weithredu yn erbyn Trais ar sail Rhywedd; rhwng 25 Tachwedd a 10 Rhagfyr 2023 - mae'r dyddiadau hyn hefyd yn cyd-fynd â'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Menywod a'r Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol.

Digwyddiad ymwybyddiaeth yw'r digwyddiad ar 30 Tachwedd, a bydd yn cynnig cyfle i dynnu sylw at y gwasanaethau arbenigol ardderchog y mae partneriaid cymunedol yn eu cynnig ac i hyrwyddo'r gwasanaethau hynny, ac i godi ymwybyddiaeth bellach o gyffredinrwydd achosion o drais yn erbyn menywod a merched a'r angen am newid cadarnhaol.

**Cynhaliwch stondin!**

Cysylltwch â disclosureresponseteam@cardiff.ac.uk os ydych ar gael i gynnal stondin, a chaiff lle ei gadw ar eich cyfer.Nodwch mai nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly unwaith y byddant wedi'u harchebu, ni fydd y tîm yn gallu darparu lleoedd i fwy o stondinau.

Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan, ond ni fydd angen i chi anfon RSVP er mwyn mynychu.

# YMGYSYLLTU -




Rhwng mis Ebrill a mis Awst, gwnaethom gyflawni cyfradd agor negeseuon e-bost gyfartalog o 23%, sy'n dangos bod aelodau ein rhwydwaith yn teimlo bod gwybodaeth am gyfleoedd ymchwil a chyllido a'r newyddion diweddaraf am VAWDASV yng Nghymru yn ddefnyddiol!

Cafwyd hefyd dros 6,000 o argraffiadau hefyd a chyfradd ymgysylltu o 3.2%. Gwnaethom groesawu 64 o ddilynwyr newydd hefyd. Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei rannu ar Twitter, anfonwch neges uniongyrchol atom nawr!

Argraff: Sawl gwaith y gwelodd pobl y trydariad.

Cyfradd ymgysylltu: Canran sy'n dangos faint o bobl a ryngweithiodd â'r trydariad ar ôl ei weld. Er enghraifft, hoffi, aildrydar neu glicio ar ddolen. Ystyrir unrhyw beth dros 1% yn ganran dda.

Cyfradd agored: Canran sy'n dangos faint o bobl a agorodd neges e-bost o blith y bobl a dderbyniodd y neges honno. Ystyrir bod unrhyw beth rhwng 17% a 28% yn gyfradd dda ar gyfer agor negeseuon e-bost.

# CYSYLLTWCH Â NI -

I gael rhagor o wybodaeth am y rhwydwaith neu os ydych yn ystyried ymuno â ni neu os hoffech gyflwyno erthygl ar gyfer ein cylchlythyr chwarterol nesaf, cysylltwch â ni drwy e-bostio: vawdasvwales@southwales.ac.uk.